CFfI Llanddeiniol

Newyddion 2007

RALI'R SIR

Diwrnod bach digon oer odd hi ar Fferm Gafryw, Mydroilyn dydd Sadwrn ond er hyn bu aelodau CFfI Llanddeiniol yn cystadlu'n frwd drwy'r dydd. Canlyniad cynta'r dydd oedd y Barnu Gwartheg Limos, cystadleuaeth a gynhaliwyd ar y nos Fercher, a braf oedd clywed fod y tîm yn 2il (Gareth, Gerwyn a Trefor), ac fod Gareth yn 2il fel unigolyn dan 26ain a Trefor yn gyntaf fel unigolyn o dan 16eg.

Bu Enfys, Ffion L. a Gethin yn paratoi pecyn iechyd ac yn cyflwyno ei 'roadshow' Troi Dalen Newydd peth cynta yn y bore gan gyrraedd y 3ydd safle. Emyr a Gareth fu wrthi'n ddiwyd yn y coed gan greu offer chwarae i blentyn a oedd yn boblogaidd iawn ymysg athrawon y clwb (mae pob un wedi gwerthu yn barod!). Roedd Anwen yng ngofal y blodau, Gwenllian fu'n pwytho'n gelfydd i gyrraedd yr 2il safle yn y crefft a Ffiona a Betsan yn creu pryd o fwyd i blentyn ysgol uwchradd. Trwy ymdrechion y bedair yma daeth y clwb i'r 4ydd safle yng nghystadlaethau'r aelodau. Deiniol, Bleddyn a Deian ddaeth a chystadlu'r bore i ben yn barnu defaid Sulffolk.

Ar ddechrau'r prynhawn gwelwyd Enfys yn camu i'r llwyfan yn ystod seremoni'r coroni fel morwyn.

Tro'r dawnswyr oedd hi nesa, Anwen, Andrew, Huw, Sara, Martin, Lowri, Nerys a Carwyn - mae'r wyth wedi bod wrthi yn ddiwyd iawn yn ymarfer y dawnsio gwerin a'r aerobics yn ystod yr wythnosau diwethaf ac roedd yn bleser eu gweld yn perfformio o'i gorau ar y llwyfan. Bu'r 'shuttlecock' yn dipyn o ben tost i'w greu ond yn sicr yn werth y ffwdan yn y diwedd wrth i Gwenno a Carwen sicrhau yr 2il safle yn y gystadleuaeth Gwisgo Arweinydd. Eleri oedd yn cael y fraint o gael gwisgo'r 'shuttlecock' mawr!

I derfynnu cystadlaethau'r diwrnod cynhaliwyd yr It's a Knockout gyda Brychan Brocoli (Rhodri), Greta Grawnwin (Caryl), Pitr Pinafal (Gareth R) a Tomi Tomato (Sion) yn camu i'r cylch i arddangos eu doniau!Roedd y ras yn un diddorol a dweud y lleia a'r pedwar yn dychwelyd yn ol i'r llinell derfyn yn wlyb sopen wedi taclo'r cwrs It's a Knockout! (gan fod neb o'r clwb wedi edrych ar y bwrdd sgorio - sdim clem da ni ar hyn o bryd,pwy safle on ni yn y gystadleuaeth yma!)

Daeth amser y seremoni wobrwyo a braf oedd clywed enw Llanddeiniol yn cael ei gyhoeddi ar sawl achlysur o'r llwyfan. Trefor oedd seren y sioe eleni wrth gipio pedwar cwpan am ei ymdrechion yn y barnu stoc - efe oedd enillydd y cwpan am yr unigolyn ar marciau uchaf yn yr adran stoc i gyd. Llongyfarchiadau mawr iddo ar ei gamp. Enillodd Gareth J ar y cyd ac Arwel o Lanwenog y darian am yr amser hira a dreuliwyd dramor ar daith gyfnewid. Cyhoeddwyd mae arwydd hysbysebu y rali CFfI Llanddeiniol oedd yn fuddugol a braf oedd derbyn cwpan newydd Teulu Tynberllan. Un o uchafbwyntiau eraill oedd derbyn Cwpan Her y Cadeirydd i'r clwb bach gorau yn y sir unwaith yn rhagor. Ar ddiwedd diwrnod hir (roedd hi bron yn 7 ar y canlyniadau terfynol yn cael ei cyhoeddi!) cyhoeddwyd fod CFfI Llanddeiol wedi cyrraedd yr 8fed safle. Rydym yn ymfalchio yn y safle yma ac yn gwerthfawrogi gwaith caled yr aelodau a'r holl amser maent wedi ei roi i'r paratoi.

Diolch i bawb sydd wedi bod ynghlwm a pharatoadau Llanddeiniol gogyfer rali 2007, rydym yn gwethgawrogi eich cyfranaidau yn fawr iawn.

DIWRNOD MAES CFFI CYMRU

Aeth bois y ffensio ar dramp o Rhuthin ar yr 21ain o Ebrill i ddiwrnod Maes CFfI Cymru. Ar brynhawn poeth iawn aed ati yn ddiwyd i godi'r ffens i'r safon gorau. Ar ddiwedd y dydd cyhoeddwyd fod y ffens wedi cyrraedd trydydd safle haeddianol. Mi fyddant nawr yn cystadlu yn y Sioe Frenhinol yn yr 'All Wales Fencing Final'.

Yn ystod y diwrnod hefyd bu Enfys yn cystadlu yn nghystadleuaeth Aelod Hyn y flwyddyn a fe'i cyhoeddwyd hi yn enillydd yn ystod y seremoni wobrwyo.

DIWRNOD MAES Y SIR



Ar ddydd Sadwrn y 31ain o Fawrth aeth criw da o aelodau'r clwb i fart Tregaron i gystadlu yn niwrnod maes y Sir. Bu Bleddyn, Deian, Trefor, Gerwyn ac Enfys yn beirniadu stoc yn y bore. Yna yn y prynhawn bu Ffion a Carwen ar daith natur, Trefor a Deian yn cwblhau holiadur dioglewch iau, Carwyn, Huw, Gwenno ac Enfys yn perfformio Sioe Radio i hyrwyddo'r clwb a Gareth, Emyr a Bleddyn yn ffensio. Llongyfarchiadau i bois y ffensio am ennill eleni eto a hynny am y drydedd flwyddyn yn olynnol - tipyn o gamp. Enwyd Enfys yn aelod hyn y flwyddyn Ceredigion ar ddiwedd y dydd.

DRAMA

Perfformiwyd y ddrama Gwely a Brecwast gan y clwb yn Wyl Ddrama'r Sir a gynhaliwyd yn ystod hanner tymor mis Chwefror. Diolch i'r cynhyrchydd Mr Eifion Gruffydd am ei amynedd a'i frwdfrydedd tra'n ein hyfforddi. Aelodau'r cast oedd Andrew Edwards, Enfys Evans, Gareth Harries, Gethin Hughes, Gareth Jones, Ffiona Henson, Ffion Lewis a Bleddyn Henson. Wedi perfformiad da iawn yn y Theatr cyhoeddwyd fod y ddrama wedi cyrraedd y 8fed safle, teilwng iawn gan ystyried fod 16eg o ddramau wedi eu perfformio yn ystod yr wythnos.

CINIO LLWYDDIANNUS YM MHLAS ANTARON

Cynhaliwyd cinio blynyddol y clwb ar nos Wener yr 19eg o Ionawr ym Mhlas Antaron. Daeth dros 70 o aelodau, rhieni a ffrindiau ynghyd i ddathlu blwyddyn arall lwyddiannus yn hanes y clwb. Y siaradwr gwadd oedd Mr John 'Butch' Evans, Llywydd CFfI Ceredigion eleni, y jocs yn llifo wrth i'r gynuilleidfa chwerthin a mwynhau ei arddull hamddenol! Cyfarchodd Mr John Jones (llywydd y clwb ynghyd a'i wraig Olwen) y criw ar ffurf penillion celfydd iawn. Wedi'r bwyd blasus a'r siarad difyr daeth Paul Dark i ddifyrru. Erbyn diwedd y nos roedd pawb allan yn dawnsio ac yn mwynhau. Noson o hwyl a sbri!